



Summerhill/Amroth

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



Summerhill/Amroth

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 4.4 milltir (7.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Amroth 350/351.

Cyfeirnod map: SN152074

Diolch i'r llethrau coediog, y bryniau a'r cildraethau olynol, mae yna ymdeimlad Fediteranaidd bron i'r darn hwn o arfordir ar ddiwrnod heulog. I rai o'r cerddwyr sy'n cerdded 299km (186 milltir) cyfan Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, dyma ben y daith, ond i eraill mae'n ddechrau ar rhyw bythefnos o gerdded.

Yn Amroth mae yna eglwys Normanaidd, Sant Elidir, ac roedd ganddi ei hamddiffynfa Normanaidd ei hun ar un adeg hefyd, sef Castell Earwere - credir bod y castell ar safle'r plasty o'r 19eg ganrif, Castell Amroth.

Pan fydd y llanw'n isel, chwiliwch am bridd a boncyffion coed ar y traeth neu ychydig oddi ar y lan. Olion coetir hynafol yw'r rhain, a foddwyd pan gododd lefelau'r môr ar ddiwedd Oes yr Iâ, rhwng 10,000 a 5,000 o flynyddoedd yn ôl.

I ffwrdd oddi wrth y môr, mae'r dirwedd yn goediog ac uchafbwynt y cwm tawel anghysbell yw Gerddi Coetir Colby, a oedd yn rhan o ystâd Tŷ Colby, sef Tŷ o'r 19eg ganrif, yn wreiddiol. Mae ei gasgliad o rododendrons ac asaleas yn un o'r gorau yng Nghymru.

Yn Pleasant Valley sy'n wir yn Gwm Dymunol iawn, mae olion hen Weithfeydd Haearn Cilgeti, a oedd yn cael cyflenwadau o fwyn haearn ar un adeg, wedi ei balu'n syth o glogwyni cyfagos.

Saif yr ardal wledig rhwng Amroth a Wiseman's Bridge ar greigiau sy'n llawn glo ac er ei bod yn ardal fach dawel erbyn hyn, roedd yr ardal yn un eithaf diwydiannol ar un adeg. Yn y 19eg Ganrif, adeiladwyd darnau byr o reilffordd i gludo mwynau ac roedd y gangen yn rhedeg i Wiseman's Bridge. Mae rhan o'r llwybr yn defnyddio hen dwnneli'r llinell hwn.

Efallai mai'r unig achlysur gwirioneddol hanesyddol a ddaeth i ran Wiseman's Bridge oedd y digwyddiad yn Haf 1943, pan yr oedd y traeth yn lleoliad i ymarfer ar raddfa lawn ar gyfer glaniadau D-Day. Teithiodd y Prif Weinidog Churchill a'r Arlywydd Eisenhower i Sir Benfro i weld eu byddinoedd yn mynd trwy eu pethau.

Mae Tîm Jones, Parcmon Sector y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Os oes diddordeb gyda chi mewn hanes diwydiannol, yna fe fydd yr ardal hon yn eich diddori chi'n fawr iawn. Mae'n werth crwydro oddi ar y llwybr i Stepside i weld yr hen waith haearn a'r mwynglawdd."

